**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 30 Mawrth 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Jones | R Fogarty |
| P M Black | E J King | S Bennett |
| P Downing | H Lawson | P N Bentu |
| C R Doyle | A S Lewis | A Davis |
| M Durke | M B Lewis | C M J Evans |
| C R Evans | R D Lewis | N Furlong |
| V M Evans | W G Lewis | H J Gwilliam |
| E W Fitzgerald | P Lloyd | V A Holland |
| R Francis-Davies | P M Matthews | D H Jenkins |
| L S Gibbard | P N May | S Joy |
| F M Gordon | C L Philpott | S E Keeton |
| J A Hale | S Pritchard | M W Locke |
| T J Hennegan | A Pugh | N L Matthews |
| C A Holley | K M Roberts | J D McGettrick |
| P R Hood-Williams | B J Rowlands | F D O'Brien |
| D H Hopkins | R V Smith | A J O'Connor |
| L James | A H Stevens | J E Pritchard |
| O G James | R C Stewart | S J Rice |
| Y V Jardine | L G Thomas | M S Tribe |
| J W Jones | G D Walker | R A Williams |
| L R Jones | L V Walton | A J Jeffery |
| M H Jones | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, K M Griffiths, B Hopkins, S M Jones, E T Kirchner, D Phillips a/ac W G Thomas

## 142. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen
"Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R D Lewis, F D O'Brien ac A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 147 "Cwestiynau Cyhoeddus" a 158 "Cwestiynau Cynghorwyr" a gadawsant y cyfarfod cyn y drafodaeth".

2) Datganodd y Cynghorwyr S Bennett, P N Bentu, J P Curtice, J A Hale, T J Hennegan, R Francis-Davies, H Lawson, A S Lewis, M B Lewis, P Lloyd, N L Matthews, S Pritchard, S J Rice, R V Smith, M S Tribe, G D Walker a T M White gysylltiad personol â Chofnod 150 "Datganiad o Gyfrifon 2021/22".

3) Datganodd y Cynghorwyr P Downing, E W Fitzgerald, R A Fogarty, J W Jones, M H Jones, W G Lewis, N L Matthews, C L Philpott ac S J Rice gysylltiad personol â Chofnod 151 "Trefniadau Derbyn Ysgolion 2024-2025".

4) Datganodd y Cynghorydd S Pritchard gysylltiad personol â Chofnod 152 "Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe".

5) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, C A Holley, P Lloyd ac C L Philpott gysylltiad personol â Chofnod 154 "Enwebu Arglwydd Faer a Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer 2023-2024".

6) Datganodd y Cynghorwyr P R Hood-Williams ac L G Thomas gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 154 "Enwebu Arglwydd Faer a Darpar Arglwydd Faer 2023-2024" a gadawsant y cyfarfod cyn y drafodaeth.

7) Datganodd y Cynghorydd E W Fitzgerald gysylltiad personol â Chofnod 156 “Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cylch Gorchwyl Gweithgor y Cyfansoddiad ac Aelodaeth a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol”.

## 143. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023.

## 144. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 145. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Y Cynghorydd Hazel Morris

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Hazel Morris. Cynrychiolodd Hazel Ward Penderi am tua 15 mlynedd:

| | |
|---|---|
| Dinas a Sir Abertawe | 1 Mai 2008 - 2 Mawrth 2023 |

Arweiniodd Arweinydd y Grŵp Llafur deyrnged i'r Cynghorydd Hazel Morris.

#### ii) Y Cyngynghorydd June Evans

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd June Evans. Cynrychiolodd June Ward Llansamlet rhwng y cyfnodau isod:

| | |
|---|---|
| Cyngor Dinas Abertawe | 21 Hydref 1993 - 31 Mawrth 1996 |
| Dinas a Sir Abertawe | 4 Mai 1995 - 3 Mai 2012 |

Cafwyd munud o ddistawrwydd gan bawb a oedd yn bresennol i ddangos cydymdeimlad a pharch.

### b) Ymddeoliad Karen Thomas, Gwasanaethau Democrataidd

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y byddai Karen Thomas, neu Zippy, yn ymddeol ar 31 Mawrth 2023, ar ôl gwasanaethu am 40 mlynedd gyda'r cyngor. Roedd Karen wedi ymroi ei gyrfa i gefnogi Cynghorwyr. Ar ran y cyngor, diolchodd i Karen.

Diolchodd yr Aelod Llywyddol hefyd i'r holl Swyddogion eraill a oedd i fod i ymddeol yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf am eu gwasanaeth a'u hymroddiad i'r cyngor.

### c) Diolch i'r Timau Profi, Olrhain, Diogelu

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Llywodraeth Cymru wedi diolch yn ddiweddar i bawb a fu'n rhan o'r Timau Profi, Olrhain, Diogelu am eu gwaith

caled eithriadol a'u hymrwymiad drwy gydol pandemig COVID-19. Ar ran y cyngor, ychwanegodd ei diolch i'r Timau Profi, Olrhain, Diogelu am eu proffesiynoldeb a'u gwaith yn ystod cyfnod mor anodd.

**d) Darllediad byw**

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol bob aelod o'r cyhoedd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw. Nododd fod yn rhaid bod yn ofalus i osgoi unrhyw sylwadau sarhaus neu ddifrïol yn erbyn Swyddogion, Cynghorwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd.

**e) Aros yn eistedd wrth siarad**

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorwyr i aros ar eu heistedd wrth siarad yn Siambr y Cyngor, gan ei wneud yn haws i bobl glywed a gweld.

**f) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**i) Eitemau 19 a 20 "Hysbysiad o Gynnig"**

Dylid dileu enw'r Cynghorydd Jan Curtis o'r ddau Hysbysiad o Gynnig.

## 146. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Ffrwydrad yn Clydach Road, Treforys**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at farwolaeth drasig ddiweddar Brian Davies yn dilyn ffrwydrad yn Clydach Road, Treforys. Mynegodd gydymdeimladau'r cyngor i'r teulu ar ran y dioddefwr.

Diolchodd hefyd i Swyddog Cyngor Abertawe, y Tîm Tai a'r Gwasanaethau Brys am gefnogi'r gymuned.

**2) Porthladd Rhydd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot**

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y cyhoeddiad bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Penfro, fel rhan o ddinas-ranbarth Bae Abertawe, wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gael porthladdoedd rhydd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot.

**3) Canmlwyddiant Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi bod i ymweld ag Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw yn ddiweddar fel rhan o'u dathliadau canmlwyddiant.

**4) Gwobrau MJ 2023 - enwebiad ar gyfer gwobr Awdurdod Lleol y Flwyddyn**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Cyngor Abertawe wedi'i enwebu ar gyfer Awdurdod Lleol y Flwyddyn yng Ngwobrau MJ 2023. Dywedodd fod Cyngor Abertawe wedi dod yn ail yn yr un categori yn 2022.

## 147. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnodd chwe aelod o’r cyhoedd gwestiynau a oedd yn ymwneud â Chofnod 158 “Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 1.”

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol ac ymrwymodd i ddarparu ymatebion ysgrifenedig.

## 148. Cynllun Corfforaethol 2023/28.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2023/28 yn dilyn adolygiad fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r canllawiau statudol yn ymwneud â chyrff cyhoeddus.

**Penderfynwyd** mabwysiadu Cynllun Corfforaethol 2023/28.

**Sylwer:** Dywedodd y Cynghorydd S Bennett fod "Paragraffau 3.84 a 3.94 yn cyfeirio at "fwy nag 1 o bob 5 ymatebydd..." a "Mwy nag 1 o bob 4 ymatebydd..." yn y drefn honno. Beth oedd y mwyafrif yn ei ddweud h.y., y 4 mewn 5 a'r 3 mewn 4? Beth mae'r paragraffau hyn yn ei olygu?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 149. Adroddiad Archwilio Cymru - Adroddiad Archwilio Cyfrifon Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Derwyn Owen, Archwilio Cymru "Adroddiad Archwilio Cymru, Archwilio Cyfrifon 2021-2022 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe".

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r Llythyr Sylwadau Terfynol.

**Sylwer:** Cyfeiriodd y Cynghorydd C A Holley at dudalen 171, Atodiad 3 a gofynnodd am beth oedd y cyngor yn ei brydlesu am £284,851,000.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 150. Datganiad o Gyfrifon 2021/22.

Cyflwynodd y Swyddog 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2021-22 ar 31 Gorffennaf 2022 neu cyn hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2021/22 fel y'i nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

## 151. Trefniadau Derbyn Ysgolion 2024-2025.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn gofyn am benderfyniad ar y trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-2025.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar gyfer dosbarthiadau meithrin fel a nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar gyfer dosbarthiadau derbyn fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

3) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar gyfer Blwyddyn 7 fel a nodir yn Atodiad C yr adroddiad.

4) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn fel a nodir yn Atodiad Ch yr adroddiad.

5) Cymeradwyo'r trefniadau derbyn/meini prawf derbyn arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar gyfer dosbarthiadau'r chweched yn Atodiad D yr adroddiad.

6) Cymeradwyo'r Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd fel a nodir yn Atodiad Dd yr adroddiad.

7) Nodi'r niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, fel a nodir yn Atodiad E yr adroddiad.

## 152. Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i Gynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, sy’n cynnwys yr Amcanion Lles Lleol a’r camau y bydd y bartneriaeth yn eu cymryd i’w cyflawni.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

## 153. Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 ac i benodi Aelod Lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Penderfynwyd:**

1) Penodi David Roberts yn Aelod Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2) Pum mlynedd yw cyfnod y swydd, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2028.

## 154. Enwebu'r Darpar Arglwydd Faer a'r Darpar Ddirprwy Arglwydd Faer ar gyfer 2023-2024.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am enwebiadau ar gyfer yr Arglwydd Faer Etholedig a'r Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig er mwyn caniatáu i drefniadau ar gyfer digwyddiad Urddo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fynd yn eu blaenau.

**Penderfynwyd:**

1) Enwebu'r Cynghorydd Graham Thomas yn Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2023-2024.

2) Enwebu'r Cynghorydd Paxton Hood-Williams yn Ddirprwy Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer 2023-2024.

## 155. Arolwg o Amserau Cyfarfodydd y Cyngor a Dyddiadur Cyrff y Cyngor 2023-2024.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, a gyflwynodd Ddyddiadur Cyrff y Cyngor drafft 2023-2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi canlyniadau Arolwg Amseru Cyfarfodydd y Cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu Dyddiadur Cyrff y Cyngor 2023-2024 drafft yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol yng nghyfarfod blynyddol y cyngor ar 18 Mai 2023.

## 156. Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cylch Gorchwyl Gweithgor y Cyfansoddiad ac Aelodaeth a Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor. Mae angen penderfyniad gan y cyngor i newid Cyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y diwygiadau'n ymwneud â Chylch Gorchwyl y Gweithgor Cyfansoddiad ac i'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

**Penderfynwyd:**

1) Diwygio paragraff 3.2 Cylch Gorchwyl Gweithgor y Cyfansoddiad fel a ganlyn:

*"3.2 Mae'r Grŵp hwn wedi'i eithrio o Reolau Cydbwysedd y Pwyllgor er mwyn caniatáu'r aelodaeth a'r gynrychiolaeth ganlynol gan bob Grŵp Gwleidyddol: Aelod Llywyddol, Dirprwy Aelod Llywyddol, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llywodraethu a'r Wrthblaid Fwyaf, Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol eraill a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfansoddiadol.* ***Sylwer:*** *Gall arweinydd pob Grŵp Gwleidyddol amnewid eu Dirprwy Arweinydd Grŵp Gwleidyddol gydag un o'u Haelodau Grŵp os oes angen ond rhaid i'r aelodaeth gael ei chymeradwyo gan y cyngor."*

2) Y bydd y Cynghorydd M H Jones yn cymryd lle'r Cynghorydd E W Fitzgerald fel cynrychiolydd yr Wrthblaid Fwyaf ar Weithgor y Cyfansoddiad.

3) Diwygio paragraff 11.6 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol i ddarllen:

*"11.6 Rhaid dileu dyledion nad ydynt yn adenilladwy. Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid gymeradwyo dileu'r holl ddyledion hyd at £10,000. Rhaid dileu dyledion dros £10,000 gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol".*

## 157. Adolygiad o Gymunedau.

Cyflwynodd y Swyddog Canlyniadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW) i gynnal yr Adolygiad Cymunedol ar ran y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) y bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal Adolygiad Adran 26 o gymunedau ar ran y cyngor.

2) Diwygio Cylch Gorchwyl Gweithgor y Cyfansoddiad i gynnwys:

*"Goruchwylio'r Adolygiad o Gymunedau a bod yn gyfrifol am weithio gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i sicrhau bod unrhyw argymhellion yn adlewyrchu cymunedau Abertawe a Chylch Gorchwyl yr Adolygiad o Gymunedau yn gywir."*

3) Y bydd Gweithgor y Cyfansoddiad yn ystyried "Polisi Maint y Cyngor" ac yn argymell Polisi o'r fath i'r cyngor maes o law.

## 158. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A

Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngŵŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 9**
Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald am ddiffiniad cliriach o'r hyn y mae "ffyrdd yn cael eu glanhau'n rheolaidd" yn ei olygu. Holodd beth oedd yr union amserlen?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd 5 'Cwestiwn Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

## 159. Hysbysiad o Gynnig - Perygl Brexit i'n Hawliau - Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir

Cynigiwyd gan y Cynghorydd R A Fogarty a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Hyd yma, mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi niweidio ein statws cenedlaethol yn y byd, wedi costio biliynau i'n heconomi o ran colli masnach ac wedi creu ansicrwydd a gwaith papur i ddinasyddion a busnesau ledled y DU. Mae 65% o'r cyhoedd ym Mhrydain o'r farn bod Llywodraeth y Ceidwadwyr yn ymdrin â Brexit yn wael.*

*Bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn rhoi’r gallu i Weinidogion y Llywodraeth ddewis a dethol pa reolau'r UE y byddant yn eu cadw a pha rai i gael gwared arnynt. Mae hyn yn cynnwys amddiffyniadau sylfaenol, y brwydrwyd yn galed drostynt, fel iechyd a diogelwch yn y gwaith, amddiffyniadau anabledd a hawliau mamolaeth. Mae perygl y bydd hyn yn achosi niwed pellach ar adeg o anhawster economaidd i lawer drwy rwygo 4,000 o hawliau ac amddiffyniadau sylfaenol gydag ychydig iawn o graffu seneddol ac ymrwymo obsesiwn y Ceidwadwyr â dadreoleiddio ar bob cyfrif i lyfrau statud y DU. Mae’n peri pryder arbennig i weld ymdrechion i roi sofraniaeth y Senedd i’r cyrion ar adeg pan fo’n ymddangos bod sgandal newydd yn ymwneud â Gweinidogion Llywodraeth y DU bob wythnos, gan danseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein harweinwyr i wneud yr hyn sydd er eu lles pennaf.*

*Fel cymunedau ledled y DU, mae'r argyfwng costau byw yn effeithio'n fawr ar Abertawe, gyda phobl yn byw drwy gyfnod mwyfwy ansicr. Rhaid i flaenoriaeth y Llywodraeth ar hyn o bryd fod i sicrhau ffyniant economaidd, ac atal unrhyw niwed pellach rhag cael ei wneud gan y rheini sy'n dymuno defnyddio Brexit fel cyfle i wanhau hawliau ac amddiffyniadau y brwydrwyd yn galed drostynt.*

*Felly, mae'r cyngor hwn yn:*

- *Annog y Llywodraeth i ailystyried cyfreithiau'r UE drwy Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir.*

- *Galw ar Lywodraeth y DU i wneud ymrwymiad i gynnal yr holl hawliau ac amddiffyniadau presennol a roddir i ni yn neddfwriaeth yr UE.*

- *Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at y Prif Weinidog yn amlinellu gwrthwynebiad cadarn y cyngor hwn i ymosodiadau rheolaidd ei Lywodraeth ar hawliau dynol sylfaenol.*

- *Gofyn i'r Arweinydd hefyd ysgrifennu at Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan, i geisio sicrwydd, wrth i'r Bil wneud ei ffordd drwy'r Senedd, y bydd pob cam yn cael ei gymryd i frwydro yn erbyn yr ymosodiad llwyr hwn ar ddemocratiaeth Seneddol, gan gynnwys drwy ffocysu craffu cyhoeddus ar yr hawliau a'r amddiffyniadau rydym ar fin eu colli."*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:

| **O blaid (50 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | V A Holland | M W Locke |
| S Bennett | C A Holley | N L Matthews |
| P N Bentu | D H Hopkins | P M Matthews |
| P M Black | O G James | P N May |
| J P Curtice | Y V Jardine | J D McGettrick |
| A Davis | D H Jenkins | C L Philpott |
| P Downing | J W Jones | J E Pritchard |
| C R Doyle | M H Jones | S Pritchard |
| M Durke | M Jones | A Pugh |
| C M J Evans | S A Joy | S J Rice |
| V M Evans | S E Keeton | R V Smith |
| R A Fogarty | E J King | A H Stevens |
| N Furlong | H Lawson | R C Stewart |
| L S Gibbard | A S Lewis | L V Walton |
| F M Gordon | M B Lewis | T M White |
| H J Gwilliam | W G Lewis | R A Williams |
| T J Hennegan | P Lloyd | - |

| **Yn erbyn (3 chynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| L R Jones | F D O'Brien | B J Rowlands |

| **Ymwrthod (2 gynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| A J O'Connor | M S Tribe | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd (0 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

**160. Hysbysiad o Gynnig - Bil Mewnfudo Anghyfreithlon.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd S Pritchard a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae'r cyngor hwn wedi'i frawychu gan fil mewnfudo anghyfreithlon llywodraeth y DU sy'n cynnig cadw ac yna symud unrhyw un sy'n cyrraedd y DU yn ddiweddarach ar gwch bach sy'n golygu na fydd y Swyddfa Gartref yn ystyried unrhyw un o'u ceisiadau am loches, p'un a ydynt wedi ffoi rhag rhyfel neu erledigaeth am fod yn lleiafrif.*

*Bydd y bobl hyn sy'n ceisio noddfa wedyn yn cael eu hallgludo yn ôl i'r wlad y maent wedi ffoi ohoni neu drydedd wlad 'ddiogel'.Gallai'r drydedd wlad hon fod yn Rwanda neu'n wlad arall y mae Llywodraeth y DU yn ei hystyried yn ddiogel ond sydd â hanes amheus o ran hawliau dynol.*

*Bydd y ddeddfwriaeth wael ac annynol hon yn cosbi'r bobl fwyaf bregus o bob cwr o'r byd. Mae cwestiynau wedi'u codi ynghylch cyfreithlondeb y Bil ac a yw'n cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) ac yn gyson â Chonfensiwn Ffoaduriaid 1951. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi datgan yn ysgrifenedig os byddwch yn dod i'r DU yn anghyfreithlon "Ni allwch elwa o'n hamddiffyniadau caethwasiaeth fodern".*

*Mae'r cyngor hwn hefyd yn nodi ac yn condemnio'r iaith beryglus ac annynol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r Bil hwn. Mae'r rhethreg hon yn meithrin diwylliant o gam-drin, hiliaeth a hyd yn oed trais yn erbyn ffoaduriaid a lleiafrifoedd ac yn rhoi llwyfan iddo.*

*Fel Dinas Noddfa, mae'r cyngor hwn a phobl Abertawe wedi croesawu a derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae hyn wedi gwneud y ddinas yn ddinas fwy diddorol, amrywiol a goddefgar.*

*Mae'r cyngor hwn yn condemnio camau Llywodraeth y DU wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac yn galw ar y prif weinidog a'i weinidogion i dynnu'r cynigion dybryd hyn yn ôl.*

*Rydym yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y prif weinidog yn y telerau cryfaf posib i amlinellu ein pryderon.*

*Byddem hefyd yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ddinas Noddfa Abertawe i ailddatgan cefnogaeth y cyngor i'r gwaith y maent yn ei wneud.*"

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:

| **O blaid (48 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | V A Holland | M W Locke |

| | | |
|---|---|---|
| S Bennett | C A Holley | N L Matthews |
| P N Bentu | D H Hopkins | P M Matthews |
| P M Black | Y V Jardine | P N May |
| J P Curtice | D H Jenkins | J D McGettrick |
| A Davis | J W Jones | C L Philpott |
| P Downing | M H Jones | J E Pritchard |
| C R Doyle | M Jones | S Pritchard |
| M Durke | S A Joy | A Pugh |
| C M J Evans | S E Keeton | S J Rice |
| V M Evans | E J King | R V Smith |
| R A Fogarty | H Lawson | A H Stevens |
| N Furlong | A S Lewis | R C Stewart |
| L S Gibbard | M B Lewis | L V Walton |
| F M Gordon | W G Lewis | T M White |
| H J Gwilliam | P Lloyd | R A Williams |

| **Yn erbyn (5 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| L R Jones | A J O'Connor | M S Tribe |
| F D O'Brien | B J Rowlands | - |

| **Ymwrthod (0 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd (0 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.30 pm

**Cadeirydd**